www.capelytraeth.com

Rhif 149 **Mai 2024**

05	Parch Olaf Davies	Ariel	Siân Jones
12	Gweinidog	Buddug	Gwyneth Jones
19	Gwasanaeth Cymorth Cristnogol	Helen	Nia Jones
26	Parch Huw Dylan Jones	Dewi	Adran Saesneg

07	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
14	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
14	Pwyllgor Y Gymdeithas Ddiwylliadol yn y Festri am 7.00 y.h.
21	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
28	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30

Mae Soar y Mynydd yng Ngheredigion. Ar lan afon Camddwr ger Llyn Brianne. Mae tua 8 milltir i'r gorllewin o Dregaron.

Côd Post: SY 25 6NP

PERERINDOD I SOAR Y MYNYDD

Cofiwch am y daith i Soar y Mynydd ddydd Sul Gorffennaf 21 eleni. Byddwn yn cychwyn tua 9.30 o'r gloch y bore. Plis rhowch eich enwau i un o'r Swyddogion neu i mi yn ystod y dyddiau nesaf er mwyn archebu bws. Bydd angen dod â phecyn bwyd efo chi i fwyta ar y ffordd yno a byddwn yn cael pryd o fwyd ar y ffordd adref. Byddwn yn gwybod y pris wedi cael gwybod faint o enwau a geir.

Diolch. *Iwan*

Cofion Dyma gyfle eto i gofio atoch yn gynnes iawn. Rwy'n siwr eich bod wedi gwirioni gweld yr haul braf y dyddiau diwethaf yma a'r briallu gwyllt yn harddu ambell i fôn clawdd ac yn ein hatgoffa o eiriau'r Emyn, "Pan ddaw pob tymor yn ei dro, rhyfeddu wnawn at allu'r Iôr."

Braf yw gallu dweud fod Gwyneth Jones adref ac yn gwella'n dda ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty yn dilyn damwain yn ei chartref ddydd Llun y Pasg. Cymerwch ofal Gwyneth a brysiwch yn ôl, mae eich lle yn wag iawn yn y Capel. Braf hefyd yw gallu dweud fod Bronwen Naish yn gwella'n dda ac yn edrych ymlaen yn fawr at ddod yn ôl i'r Capel ar fore Sul. Anfonwn ein cofion cynhesaf hefyd at Robert Roberts Llwyn Bugeilydd sydd bellach yng Nghartref Bryn Meddyg, Llanaelhaearn.

Banc Bwyd Diolch am eich cyfraniadau fel arfer. Daeth llythyr o ddiolch i law yn nodi eu bod wedi gofalu am becynnau bwyd ar gyfer 70 o oedolion a 44 o blant yn ystod y mis. Buasent yn gwerthfawrogi derbyn tuniau beans, ffrwythau, llysiau, cwstard a rice, llefrith UHT a saws pasta. Diolch yn fawr iawn a diolch i Dafydd a Cathrine am eu danfon i'r ganolfan ym Mhwllheli.

Drws Agored Mae'r selogion yn dal i fwynhau sgwrs dros baned a thôst ar fore Mawrth a braf yw gallu dweud fod un neu ddau o rai newydd wedi troi mewn atom yn ddiweddar a phleser yw cael eu croesawu.

Y Gymdeithas Ddiwylliadol Mae'r amser wedi dod i drefnu rhaglen ar gyfer tymor yr Hydref ac felly bydd pwyllgor yn y Festri ar 14 Mai am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb a dewch â syniadau am siaradwyr efo chi.

Wythnos Cymorth Cristnogol – Mai 12 – 19.



Yn gynwysedig yn eich cylchlythyr y mis yma fe welwch daflen ac amlen Cymorth Cristnogol. Y bwriad ydy' rhoi cyfle inni gyfrannu pris dau bryd o fwyd i liniaru ychydig ar y dioddef sy' wedi ei greu gan ryfeloedd a rhai trychinebau naturiol. Eleni Gasa a Yemen sy'n cael ein sylw. O weld yr angen mawr ar ein bwletinau newyddion gobeithiwn y byddwn i gyd yn awyddus i fod mor hael â phosibl eleni eto .

Hwn fydd ein prif weithgarwch codi arian eleni a bydd hyn felly yn cymryd lle y casglu o ddrws i ddrws .

Mae mwy o'r taflenni ar gael os dymunwch eu rhannu â chyfeillion neu gymdogion. (Cysyllter ag Eirwen)

Digwyddiadau eraill Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai:

11 a 13 Dydd Sadwrn a Dydd Llun. *Bydd digwyddiad ar y stryd i greu ymwybyddiaeth o waith Cymorth Cristnogol ymhlith y cyhoedd.*

15 Dydd Mercher -***Te Mefus*** *am* ***3.00*** *yn festri Capel y Traeth Tocynnau'n £5.*

19 Dydd Sul am 10.00 **Capel y Traeth** *Gwasanaeth Undebol dan arweiniad ein Gweinidog a chyfle i gyflwyno ein rhoddion (y ffurflen a'r amlen). Gan edrych ymlaen yn fawr i gael eich cefnogaeth i weithgareddau'r wythnos yn ogystal â diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth i waith CYMORTH CRISTNOGOL dros y blynyddoedd.*

Eirwen (ar ran Iwan, ein Cadeirydd a gweddill y Pwyllgor lleol)

Aline yn darparu cinio yn ei chartref i'w meibion a'i chymdogion.

GAIR GAN Y GWEINIDOG Ia, mis Mai, penllanw'r Gwanwyn, a mis y gobaith. Ond nid felly y mae hi mewn llawer iawn o wledydd yn ein byd fel ag y mae hi ar hyn o bryd. Mae hi'n chwalfa ymhob ystyr, a'r niferoedd bywydau sy'n cael eu colli'n cynyddu, gwaetha'r modd.

Roedd gen i deulu yn byw ym Morfa Nefyn, dipyn golew ohonyn nhw a dweud y gwir, rai blynyddoedd yn ôl, a hynny o fewn tafliad carreg i gartref Eirlys Parri y gantores, ac onid Eirlys ganodd:

'Y Gwanwyn ddaeth i Gymru
Mor brydlon ag erioed,
Cyn i'r gaeaf wybod
Roedd briallu yn y coed.
Y Gwanwyn ddaeth â'i weddi,
Un daer ar ran y byd,
Bloeddiwch i gyd am heddwch,
Unwn nawr mewn pryd.'

Mae'r geiriau'r un mor berthnasol heddiw ag a oeddan nhw yn y cyfnod pan ysgrifennwyd nhw tua deugain mlynedd yn ôl, ac mi gawn ni gyfle yn ystod Mai unwaith eto eleni, drwy gyfrwng gwahanol ddigwyddiadau ag oedfa, i godi arian trwy Gymorth Cristnogol ac i weddio am heddwch byd. Gwnaeth Capel y Traeth ei rhan yn anrhydeddus ar hyd y blynyddoedd i weithredu i'r cyfeiriad yma, a gobeithio mai felly y bydd hi eleni rhwng yr 11 a'r 19 o Fai. Mae Iesu'n ein hannog i weithredu i'r cyfeiriad yma; i fod yn dangnefeddwyr ein hunain yn ein hymwneud â'n gilydd ac yn ein hymwneud â'r byd.

Boed bendith ar y cyfan. *Iwan*

Te Bach yn y Festri Roedd y festri'n orlawn brynhawn Sul 14 Ebrill ac roeddem mor falch o weld cynnifer wedi troi allan i gefnogi plant y Clwb Sul. Cafwyd paned a chacen neu ddwy i ddechrau ac yna y pleser o wylio ac o wrando ar y plantos yn canu, llefaru, actio a chwarae piano. Roedd bob un o'r plant wedi bod yn cystadlu yn yr Urdd neu eisteddfodau lleol. Diolch o galon i Bethan, mam Swyn a Shôn, am ei gwaith caled yn hyfforddi'r plant ac i'r rhieni am eu cefnogaeth bob amser. Diolch arbennig hefyd i Mary Lloyd Davies, nain Miall a Gwern, am fod mor barod i gyfeilio ar y piano. Roedd y te yng ngofal Buddug, Catrin ac Eira. Diolch o galon i'r tair am eu gwaith caled yn paratoi ac i Eirwen am ddiolch mor annwyl i bawb ar y diwedd. Prynhawn bach gwerth chweil a phawb wedi mwynhau.